SUL CYFFREDIN 23

JEREMEIA 29:1, 4-7; SALM 66:1-12;
2 TIMOTHEUS 2:8-15; LUC 17:11-19

● **Gweddi agoriadol**

Wrth i'n bywydau ddod ynghyd,
boed i'r cariad a ddangosir,
a'r gofal a fynegir,
yr addoli a gyflwynir
a'r gymdeithas a rennir
fod yn dderbyniol gennyt,
ein Tad nefol.

● **Moliant**

Molwch yr Arglwydd, yr holl bobl!
Boed i'n moliant atseinio drwy'r byd!

Greawdwr y bydysawd,
yr un y mae dy anadl yn rhoi bywyd,
dy ddwylo yn creu harddwch,
yr un y mae dy gariad yn dwyn rhyddid,
a'th ogoniant yn llenwi'r ddaear,
derbyn ein hoffrwm diolch.

Waredwr y byd,
yr un y mae dy gyffyrddiad yn rhoi iachâd,
dy eiriau yn dwyn maddeuant,
yr un y mae dy ddioddefaint yn fywyd,
a'th farw yn fuddugoliaeth,
derbyn ein hoffrwm moliant.

Molwch yr Arglwydd, yr holl bobl!
Boed i'th foliant atseinio drwy'r byd!

● **Cyffes**

Dduw gras, dygwn atat ein hanniolchgarwch
am bopeth a wnaethost drosom;
ein diffyg amynedd
pan oedir ateb i weddi;
ein hunanoldeb
pan ddaw cyfle i roi neu rannu;
ein hanffyddlondeb
pan grwydrwn oddi ar dy ffordd.
Gofynnwn dy faddeuant,
drwy Iesu Grist
a roddodd bopeth
i ninnau ddysgu gwneud yr un peth.
Trwy dy Ysbryd,
boed i'n bywydau fod yn fwy ffrwythlon
a'n calonnau yn adlewyrchu dim ond ti.

● **Diolch**

Diolch, Arglwydd Duw,
achos fe'n gelwi
i fod yn oleuni i ti
yn y tywyllwch;
yn llais i ti
yn yr anialwch;
yn obaith i ti
i'r anobeithiol.

Diolch, Arglwydd Dduw,
achos rhoddi i ni
nerth
yn ein gwendid;
heddwch
a thynerwch;
geiriau
a hyfdra
i gyhoeddi
mwy ohonot ti
ac, ohonom ni, lai.